
Gwasanaethau Cyfyngedig: datganiad ar gynyddu'r sbectrwm sydd ar gael a symleiddio ein dull trwyddedu

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cyd-destun	3
3. Ein penderfyniadau ar drwyddedu RSL	6
4. Camau nesaf	27

Atodiad

A1. Diwygiad i Reoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 2020	28
--	----

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniadau Ofcom ar newidiadau i'n dull o drwyddedu rhai gwasanaethau darlledu radio sy'n cael eu galw'n wasanaethau cyfyngedig. Mae'r rhain yn wasanaethau radio sy'n gwasanaethu ardaloedd bach sy'n cael eu darlledu at ddibenion digwyddiadau neu mewn sefydliad neu leoliad penodol yn y DU. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- gwasanaethau radio pwrpasol ar gyfer defodau crefyddol fel Ramadan;
- gwasanaethau radio ar gyfer ysbytai a phrifysgolion;
- traciau sain ar gyfer gwyllo ffilmiau yn y car; a
- sylwebaeth ar y digwyddiadau.

Mae gwasanaethau cyfyngedig yn cael eu darlledu'n bennaf ym mandiau darlledu AM a FM, ac weithiau nid oes gennym ddigon o amleddau FM i ateb y galw. Mae'r galw am amleddau wedi cynyddu'n ddiweddar ac rydyn ni'n disgwyl i'r duedd hon barhau.

Rydyn ni wedi datblygu dull newydd o gynllunio sbectrwm ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n ein galluogi i ganfod bylchau bach yn y defnydd o sbectrwm, rhwng y gwasanaethau darlledu radio presennol yn y band FM. Nawr, gallwn ganfod amleddau sydd ag ymyriant cyfyngedig yn y gwasanaeth y gallant ei ddarparu, ac felly'n anaddas ar gyfer dibenion darlledu eraill.¹ Rydyn ni'n cyfeirio at y sbectrwm yn y bylchau hyn fel 'sbectrwm darpariaeth gyfyngedig'. Gallwn ddefnyddio sbectrwm o'r fath i fynd i'r afael â phrinder amleddau. Bydd sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn:

- cynyddu'r adnodd sbectrwm cyffredinol sydd ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig; a
- darparu cyfleoedd i drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig ychwanegol yn y dyfodol.

Gwnaethom ymgynghori ar gynigion ar gyfer darparu'r sbectrwm hwn, ynghyd â chynigion ar gyfer symleiddio ein dull o drwyddedu'r gwasanaethau sy'n defnyddio'r sbectrwm hwn, yn gynharach eleni.² Ar ôl ystyried yr ymatebion yn llawn, rydyn ni'n nodi ein penderfyniadau yn y ddogfen hon.

¹Mae darpariaeth sbectrwm o'r fath yn gyfyngedig oherwydd ymyriant oddi wrth wasanaethau radio darlledu trwyddedig eraill sy'n cyfyngu ar y ddarpariaeth y gellir ei chyflawni ar yr amleddau hyn. Dim ond ar bwerau isel y gellir defnyddio'r sbectrwm hwn oherwydd y risg o achosi ymyriant i'r gwasanaethau darlledu eraill hynny, er y gallai'r gwasanaethau hyn fod yn gweithredu gyda phwerau uwch.

²Mae angen dwy drwydded ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig sy'n cael eu rhoi gan Ofcom; (i) trwydded ddarlledu o dan Ddeddf Darlledu 1990 ("BA90") sy'n rheoleiddio cynnwys y gwasanaeth ("trwydded BA"); a (ii) thrwydded telegraffiaeth ddi-wifr o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 ("WTA06") sy'n berthnasol i ddarlledu'r gwasanaeth ("trwydded WTA").

Ein penderfyniad – yn gryno

- Dyrannu sbectrwm 'darpariaeth gyfyngedig' i wasanaethau cyfyngedig pŵer isel lle mae sbectrwm addas ar gael.
- Symud deiliaid presennol trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig pŵer isel i amledd darpariaeth gyfyngedig, lle mae un ar gael, wrth adnewyddu eu trwyddedau. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi 12 mis o hysbysiad ymlaen llaw i alluogi deiliaid trwydded i liniaru costau sy'n gysylltiedig ag amleddau symud.
- Rydyn ni hefyd yn gwneud amryw o newidiadau gweinyddol i'r broses ymgeisio a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ac i dempled safonol y drwydded y Ddeddf Darlledu ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig.
- I wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried gwneud gorchymyn o dan Ddeddf Darlledu 1990 i ddarparu eithriad ar gyfer systemau dosbarthu sain (ADSRSLs) a rhai gwasanaethau tebyg sy'n dod i'r amlwg o'r gofyniad i ddal trwydded BA.
- I symleiddio'r drefn ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig. Rydyn ni'n mabwysiadu fersiwn wedi'i haddasu o'n cynigion ymgynghori, gan arwain at gynnydd is yn y ffi na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n gweithredu hyd at ac yn cynnwys 2W.

2. Cyd-destun

Mae'r galw'n cynyddu am wasanaethau cyfyngedig

Ein tri chynnyrch Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig presennol

- 2.1 Mae gwasanaethau cyfyngedig yn wasanaethau radio sy'n cael eu darlledu at ddibenion digwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad penodol. Mae angen dwy drwydded wahanol arnynt:
- Trwydded a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Darlledu 1990. Gelwir hyn yn drwydded BA.
 - Trwydded a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Gelwir hyn yn drwydded WTA.
- 2.2 Rydyn ni'n defnyddio'r acronym 'RSLs' i gyfeirio at y gwasanaethau cyfyngedig rydyn ni'n eu trwyddedu. Ar hyn o bryd mae tri math o drwydded – a ddangosir yn Nhabl 1.

Tabl 1. Y tri math o gynnyrch trwydded gwasanaeth cyfyngedig presennol

Trwydded	Diben	Hyd	Band(iau) amledd
Trwyddedau gwasanaethau cyfyngedig tymor byr ("SRSLs")	Sylw i ddigwyddiad penodol neu gyfres o ddigwyddiadau.	Cyfnod byr, hyd at 28 diwrnod fel arfer. Ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau, 28 diwrnod o ddarlledu dros 6 i 12 mis	FM
Trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig tymor hir (LRSLs)	Darlledu gwasanaeth radio mewn lleoliad penodol neu i sefydliad penodol.	1 i 5 mlynedd	AM neu FM
Trwydded gwasanaeth cyfyngedig y System Ddosbarthu Sain (ADRSLs)	Darlledu gwasanaeth sain ar safle penodol. Mae'r rhai sy'n bresennol yn gwrando ar y gwasanaeth drwy dderbynyddion pwrpasol sy'n cael eu gwerthu neu eu benthyca gan y gweithredwr.	5 mlynedd ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ar y safle	Y tu allan i fandiau AM neu FM confensiynol

- 2.3 Mae SRSLs a LRSLs gan fwyaf yn defnyddio rhan benodol o'r sbectrwm radio FM (87.7 - 87.9 MHz) rydyn ni'n ei neilltuo ar gyfer defnydd RSL. Nid ydym bob amser wedi cael digon o sbectrwm FM ar gael mewn ardal benodol i ateb y galw, yn enwedig ar gyfer LRSLs. Efallai

na fydd rhai o'r rheini sy'n gofyn am drwydded wedi gallu sicrhau un, gan adael cymunedau heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan wasanaethau radio penodol ar FM. Mae'r galw wedi cynyddu ers dechrau'r pandemig Covid-19 ac rydyn ni'n disgwyl i'r diddordeb barhau i dyfu wrth i ni weld cynnydd yn y galw am wasanaethau mwy newydd fel gwyltio ffilmiau yn y car, ac wrth i ni gyhoeddi mwy o sbectrwm ar gyfer RSLs ledled y wlad.

Bydd sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn ein helpu i ateb y galw am RSLs

- 2.4 Rydyn ni wedi datblygu dull newydd o gynllunio sbectrwm yn y band darlledu FM sy'n ein galluogi i ganfod bylchau bach yn y defnydd o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau newydd, ymhlith y gwasanaethau darlledu radio presennol yn y band FM. Rydyn ni'n cyfeirio at y sbectrwm yn y bylchau hyn fel 'sbectrwm darpariaeth gyfyngedig'. Rydyn ni'n cyfeirio at y dull rydyn ni'n ei ddefnyddio i nodi sbectrwm o'r fath a chynllunio i'w ddefnyddio fel 'dull darpariaeth gyfyngedig'. Rydyn ni hefyd wedi datblygu teclyn meddalwedd lled-awtomatig sy'n ein galluogi i nodi'r amleddau darpariaeth gyfyngedig hyn yn gyflym. Mae'r adnodd hwn yn benodol ar gyfer cynllunio sbectrwm ar gyfer RSLs, oherwydd yr amleddau sy'n cael eu defnyddio, nad ydynt yn addas ar gyfer gwasanaethau darlledu eraill.
- 2.5 Mae sbectrwm darlledu cyfyngedig yn addas ar gyfer RSLs. Mae'r risg o ymyriant yn golygu mai dim ond ar bŵer isel y gellir defnyddio sbectrwm darpariaeth gyfyngedig (heb fod yn fwy na phŵer pelydru 2 wat fel arfer) dros ystod fer gyda radiws o hyd at 1 km.

Gwnaethom gynnig newidiadau i RSLs i helpu i ateb y galw

- 2.6 Ar sail canlyniadau treial a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cadarnhau ein barn am addasrwydd y sbectrwm darpariaeth gyfyngedig,³ gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n trwyddedu RSLs i weithredu'r dull darpariaeth gyfyngedig.⁴ Roeddem hefyd wedi cynnig newidiadau i'r broses ymgeisio a symleiddio'r drefn ffioedd ar gyfer RSLs.
- 2.7 Cawsom 26 o ymatebion i'n hymgynghoriad. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynigion a wnaethom – yn enwedig o ran y manteision o roi ein dull darpariaeth gyfyngedig ar waith. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn anghytuno â rhai meysydd.
- 2.8 Ar ôl ystyried barn rhanddeiliaid yn llawn, rydyn ni wedi diwygio ein cynigion ymgynghori mewn rhai meysydd:
- Byddwn yn rhoi hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer trosglwyddo i amleddau newydd ar gyfer deiliaid trwydded presennol.
 - Rydyn ni wedi gwneud mân newidiadau i'r ffurflen gais a'r canllawiau.
 - Rydyn ni wedi diwygio'r ffioedd roeddem wedi'u cynnig ar gyfer RSLs yn ein hymgynghoriad.

³<https://www.ofcom.org.uk/cymru/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/apply-for-a-radio-broadcast-licence/restricted-service-licence/limited-coverage-trial>

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/restricted-services-proposals-to-increase-available-spectrum-and-simplify-licensing>

- 2.9 Yng ngweddill y ddogfen hon, rydyn ni'n nodi ein penderfyniadau terfynol ar y newidiadau y byddwn yn eu gwneud i drwyddedu RSLs, gan gynnwys sut rydyn ni wedi ystyried yr ymatebion rydyn ni wedi'u cael gan randdeiliaid. Rydyn ni wedyn yn nodi'r camau nesaf ar gyfer rhoi ein penderfyniadau ar waith.

3. Ein penderfyniadau ar drwyddedu RSL

- 3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau ar drwyddedu RSL. Rydyn ni'n strwythuro'r adran hon o amgylch cwestiynau ein hymgyngoriad. Ym mhob achos, rydyn ni'n disgrifio ein cynigion, yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid, ac yna'n nodi sut rydyn ni wedi rhoi ystyriaeth iddynt er mwyn dod i'n penderfyniad.

Fe wnaethom ddweud ein bod am ddarparu mwy o sbectrwm ar gyfer RSLs

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

- 3.2 Drwy ddefnyddio'r dull cyfyngedig o gynllunio sbectrwm, sy'n caniatáu i ni ganfod bylchau bach yn y ddarpariaeth sbectrwm, roeddem wedi dweud y gallem nodi cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer darpariaeth FM, gan ddefnyddio'r amleddau FM yn fwy dwys nag ar hyn o bryd. Roeddem yn cynnig defnyddio'r dull hwn ar gyfer RSLs, gan nodi y byddai'n debygol o fod yn addas ar gyfer RSLs sy'n gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall, e.e. ysbyty neu gampws prifysgol. Byddai defnydd o'r fath yn golygu pwerau cyfyngedig ac uchder antenau.
- 3.3 Roeddem wedi dweud y byddem hefyd yn bwriadu parhau i ddyrannu 87.7 - 87.9 MHz i RSLs, fel arfer ar gyfer defnydd na allai sbectrwm darpariaeth gyfyngedig ei gefnogi (yn nodweddiadol, mae RSLs yn delio â digwyddiadau sy'n gweithredu ar lefelau pŵer uwch). Byddem hefyd yn defnyddio 87.7 - 87.9 MHz lle nad oes sbectrwm darpariaeth cyfyngedig ar gael.
- 3.4 Yn olaf, fe wnaethom ddweud y byddem yn dileu'r gofyniad i ddefnyddio polareiddio fertigol yn unig, gan gynyddu'r hyblygrwydd i weithredwyr RSL.
- 3.5 Fe wnaethon ni ofyn:

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion Ofcom i ddarparu mwy o amleddau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig?

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.6 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig, gyda llawer yn gryf o'i blaid. Galwodd dgi Media hyn yn "symudiad rhagorol".⁵ Dywedodd Radio Ysbyty Seaside fod hyn yn "syniad gwych" oherwydd y byddai'n "gwella ardaloedd lleol".⁶ Dywedodd ymatebydd unigol [X] eu bod yn gobeithio y gellid gwneud defnydd da o'r bylchau yn y sbectrwm VHF yn eu hardal i helpu eu cymuned.

⁵Ymateb [dgi Media](#) i'r ymgyngoriad.

⁶Ymateb [Ysbyty Radio Seaside](#) i'r ymgyngoriad.

- 3.7 Roedd rhai rhanddeiliaid a oedd yn cefnogi ein cynigion fel arall yn nodi ystyriaethau ychwanegol:
- Roedd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yn cefnogi ein cynigion ond nodwyd y dylem ystyried yr effeithiau ar orsafoedd radio cymunedol presennol o ran cystadleuaeth am hysbysebu, cyllid grant a mynediad at wirfoddolwyr. Roedd yn nodi, “dylid rhoi gofal ac ystyriaeth i effaith cynyddu nifer y trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig tymor byr a ganiateir mewn ardal sydd eisoes â phresenoldeb sylweddol a chyfredol ar gyfer radio cymunedol”.
 - Dywedodd Radio Anker y byddai'r angen am newid amledd yn peri anhwylystod i elusen fach.⁷
 - Dywedodd Radio Prifysgol York ei fod hefyd yn awyddus i archwilio'r posibilrwydd o antenau cyfeiriol pŵer uwch i gyrraedd pob rhan o gampws y brifysgol.⁸
 - Roedd Radio Cavell yn cefnogi'r symudiad at bolareiddio cymysg ond dywedodd na ddylai hyn fod yn orfodol.⁹
 - Gofynnodd un ymatebydd a ddylai Ofcom ystyried defnyddio'r band ton ganolig AM oherwydd tagfeydd ar FM a disgrifio'r manteision posibl a gynigir gan AM.¹⁰
- 3.8 Roedd transplan UK yn anghytuno â'n cynnig, gan ddweud y dylem ddychwelyd at ein polisi blaenorol o nodi unrhyw amledd sydd ar gael yn lleoliad yr ymgeisydd. Nid oedd yn darparu unrhyw resymu, gwybodaeth na thystiolaeth i gefnogi'r safbwynt hwn.¹¹

Ein penderfyniad

- 3.9 O ystyried y gefnogaeth eang i'r dull darpariaeth gyfyngedig, byddwn yn rhoi'r dull darpariaeth gyfyngedig ar waith i sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael ar gyfer RSLs. Rydyn ni o'r farn y bydd hyn yn arwain at fanteision o ran effeithlonrwydd y sbectrwm a'r potensial i RSLs ychwanegol fod ar waith.
- 3.10 Mewn perthynas â'r pryder ynghylch effaith bosibl mwy o gystadleuaeth gan RSLs ar orsafoedd radio cymunedol presennol, rydyn ni'n nodi y gall RSLs fod yn rhai tymor byr neu'n benodol i sefydliad penodol ac felly maent yn debygol o wasanaethu cynulleidfaoedd a grwpiau diddordeb gwahanol i'r rhai a dargedir gan orsafoedd radio cymunedol. Beth bynnag, bydd cynnydd yn nifer ac ystod y RSLs sy'n deillio o'r ffaith bod mwy o sbectrwm ar gael o fudd i ddinasyddion a defnyddwyr, o ran y gwasanaethau maent yn eu darparu a'r cyfleoedd cynyddol ar gyfer gwirfoddoli. I'r graddau y mae mwy o gystadleuaeth, rydyn ni o'r farn y dylai hyn ddod â manteision i ddefnyddwyr ac y gallai arwain at fwy o ddiddordeb yn y radio a mwy o wrandawyr, gan gynyddu cynulleidfaoedd i bob darlledwr.
- 3.11 O ran y posibilrwydd o antenau cyfeiriol pŵer uwch, fel rhan o'r dull darpariaeth gyfyngedig, rydyn ni wedi dewis pwerau is yn fwriadol sy'n cynnwys risg fechan o ymyriant

⁷Ymateb Radio [Anker](#) i'r ymgynghoriad.

⁸Ymateb [Prifysgol Radio York](#) i'r ymgynghoriad.

⁹Ymateb [Radio Cavell](#) i'r ymgynghoriad.

¹⁰Ymateb [S. Hockenhull](#) i'r ymgynghoriad.

¹¹Ymateb [transplan UK](#) i'r ymgynghoriad.

i ddefnyddwyr sbectrwm eraill. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried cynigion ar gyfer pŵer uwch fesul achos, yn dibynnu ar argaeledd sbectrwm a'r potensial ar gyfer ymyriant i ddefnyddwyr eraill. Rydyn ni'n diweddarau ein nodiadau cyfarwyddyd i ddarparu ar gyfer cynnydd o 10m i 20m yn uchder yr antena.

3.12 Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, bydd ymgeiswyr yn gallu gofyn am bolareiddio cymysg os ydynt yn dymuno – ni fydd hyn yn orfodol.

3.13 O ran defnyddio'r band ton ganolig AM, mae ein cynigion ymgynghori yn ceisio lleihau tagfeydd ar y band FM drwy fabwysiadu'r dull darpariaeth gyfyngedig. Rydyn ni eisoes yn trwyddedu rhai RSLs yn y band AM. Byddai'n well gan lawer o'r rheini sy'n dal trwyddedau ddefnyddio FM dros AM oherwydd yr heriau gyda darlledu AM a'r rhan fwyaf yn gwrando ar FM yn hytrach nag AM.

3.14 Rydyn ni'n mynd i'r afael â goblygiadau newid amledd isod wrth ystyried yr ymatebion i gwestiynau 3 a 4.

Rydyn ni wedi penderfynu mabwysiadu'r dull darpariaeth cyfyngedig ar gyfer RSLs. Bydd hyn yn cynyddu argaeledd sbectrwm ar gyfer y gwasanaethau hyn. Byddwn yn parhau i ddyrannu 87.7 - 87.9 MHz i RSLs mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft lle nad oes sbectrwm darpariaeth cyfyngedig ar gael neu ar gyfer RSLs sy'n delio â digwyddiadau sy'n gweithredu ar lefelau pŵer uwch. Rydyn ni hefyd wedi penderfynu dileu'r gofyniad i ddefnyddio polareiddio fertigol yn unig.

Fe wnaethom ddweud ein bod am ddiweddarau trwydded y Ddeddf Darlledu ar gyfer RSLs

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.15 Felly, rydyn ni'n cynnig disodli'r mathau presennol o drwyddedau SRSL a LSRL (gweler Tabl 1) gyda dim ond un math o drwydded – trwydded gwasanaeth cyfyngedig. Fe wnaethom ddweud y byddem yn rhoi'r drwydded hon i ddeiliaid trwydded newydd a llwyddiannus, ac yn amrywio trwyddedau'r rheini sy'n dal LRSL neu SRSL am gyfnod estynedig.

3.16 Fe wnaethon ni ofyn:

Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar drwydded BA safonol gwasanaeth cyfyngedig arfaethedig Ofcom?

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.17 Roedd cymorth eang i'n newidiadau arfaethedig. Er enghraifft, disgrifiodd Radio Clatterbridge hyn fel "symudiad cadarnhaol".¹² Dywedodd Radio Cavell ei fod yn cefnogi "symleiddio'r broses drwyddedu."¹³
- 3.18 Roedd trawsplan UK yn anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig, gan ddweud y dylai Ofcom gyhoeddi un drwydded tudalen sy'n cyfeirio at drwydded ffurflen safonol wedi'i chyhoeddi sy'n nodi'r amodau.¹⁴

Ein penderfyniad

- 3.19 O ystyried y gefnogaeth gref i'n sefyllfa ymgynghori, byddwn yn disodli'r mathau presennol o drwyddedau SRSL a LRSL gydag un drwydded gwasanaeth cyfyngedig.
- 3.20 Rydyn ni'n deall dymuniad deiliaid trwydded i'w dogfennau trwyddedu fod mor fyr â phosibl. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod deiliaid trwyddedau yn ymwybodol o amodau eu trwydded a'n bod yn rhoi'r wybodaeth hon mewn ffordd sydd mor glir â phosibl. Felly, ni fyddwn yn mabwysiadu cynnig transplan UK i gael trwydded un dudalen.

Rydyn ni wedi penderfynu mabwysiadu'r newidiadau i'r drwydded BA a nodir yn yr ymgynghoriad, gan ddisodli'r mathau presennol o drwyddedau SRSL a LRSL ag un drwydded gwasanaeth cyfyngedig.

Fe wnaethom ddweud ein bod ni eisiau symud deiliaid trwydded SRSL am gyfnod estynedig i amleddau newydd

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

- 3.21 Trwyddedau SRSLs am gyfnod estynedig yw'r trwyddedau rydyn ni'n eu rhoi ar gyfer RSLs sy'n delio â digwyddiadau ar gyfres o ddiwrnodau dros gyfnod o sawl mis. Darlledir y rhan fwyaf ar 87.7-87.9 MHz. Fe wnaethon ni ddweud, os byddwn yn cael cais arall am drwydded mewn perthynas â gwasanaeth o'r fath, y byddem yn disgwyl dyrannu amledd newydd i ddeiliad y drwydded, gan ryddhau 87.7-9 MHz i'w ddefnyddio gan wasanaethau cyfyngedig eraill. Roeddem eisoes wedi nodi amleddau o'r fath adeg yr ymgynghoriad, gan ddefnyddio'r dull darpariaeth cyfyngedig neu, mewn rhai achosion, ein dull cynllunio safonol. Fe wnaethon ni atgoffa deiliaid trwydded mai Ofcom sy'n penderfynu ar ddyrannu amledd, ac nad oedd cael amledd yn y gorffennol yn gwarantu y bydd gan ddeiliad y

¹²Ymateb [Radio Clatterbridge](#) i'r ymgynghoriad.

¹³Ymateb [Radio Cavell](#) i'r ymgynghoriad.

¹⁴Ymateb [transplan UK](#) i'r ymgynghoriad.

drwydded yr un amledd os byddant yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded yn y dyfodol. Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn ymgysylltu â deiliaid trwydded yr effeithir arnynt i ddod â newidiadau i amleddau i'w sylw cyn diwedd tymor eu trwydded.

3.22 Fe wnaethon ni ofyn:

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i roi trwydded gwasanaeth cyfyngedig i'r rheini sy'n dal trwyddedau SRSL presennol am gyfnod estynedig ar amledd newydd ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais am drwydded newydd?

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.23 Ni chawsom unrhyw ymatebion gan y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau SRSL am gyfnod estynedig. O'r rhanddeiliaid hynny a ymatebodd, roedd rhai'n cefnogi ein cynigion. Er enghraifft, nododd unigolyn a Radio Cavell gefnogaeth i'n cynnig i ddefnyddio amleddau darpariaeth gyfyngedig gan y gallai hyn gynyddu nifer y darlledwyr mewn ardal.¹⁵
- 3.24 Fodd bynnag, nid oedd nifer o'r ymatebwyr yn llwyr gefnogi ein cynnig. Tynnodd Radio Anker sylw at effaith newid amledd ar ddeiliaid trwydded o ran cost ac amser, yn ogystal â nodi'r posibilrwydd o golli cynulleidfa.¹⁶ Holodd Radio Clatterbridge a fyddai pob deiliad trwydded eisiau newid amleddau.¹⁷
- 3.25 Roedd rhai ymatebwyr yn canolbwyntio ar yr hyn y gallai Ofcom ei wneud i helpu deiliaid trwydded sy'n wynebu newid amledd. Awgrymodd dgi Media y dylem gynnig cymorth i ddeiliaid trwydded gyda chostau newid amleddau.¹⁸ Awgrymodd Radio Ysbyty Stoke Mandeville, os bydd newid amledd yn digwydd, y dylai deiliaid trwydded gael deuddeg mis o rybudd ymlaen llaw, gan alluogi gorsafoedd llai i sicrhau bod cyllid ar gael i wneud y newidiadau angenrheidiol.¹⁹ Dywedodd Radio North Angus y dylem ystyried amddiffyn gorsafoedd bach lle rydyn ni'n cynnig newid amleddau.²⁰ Dywedodd Gwasanaeth Darlledu Ysbyty Caeredin y dylai Ofcom ymgynghori â deiliaid trwydded os bydd newid amledd.²¹

Ein penderfyniad

- 3.26 Mae dyrannu amleddau i ymgeiswyr RSL yn ôl disgrisiwn Ofcom, ac rydyn ni'n ei gwneud hi'n glir yn ein nodiadau canllaw cyhoeddus ar gyfer trwyddedau RSL bod cael amledd penodol yn y gorffennol ddim yn golygu y bydd deiliad trwydded yn ei ddal yn y dyfodol.
- 3.27 Serch hynny, fel y cydnabuwyd gennym yn yr ymgynghoriad, efallai y bydd costau'n gysylltiedig os bydd deiliad trwydded yn cael amledd gwahanol i'r un y maent wedi'i gael

¹⁵Ymateb [P. Edmunds](#) i'r ymgynghoriad; ymateb [Radio Cavell](#) i'r ymgynghoriad.

¹⁶Ymateb [Radio Anker](#) i'r ymgynghoriad.

¹⁷Ymateb [Radio Clatterbridge](#) i'r ymgynghoriad.

¹⁸Ymateb [dgi Media](#) i'r ymgynghoriad.

¹⁹Ymateb [Radio Ysbyty Stoke Mandeville](#) i'r ymgynghoriad.

²⁰Ymateb [Radio North Angus](#) i'r ymgynghoriad.

²¹Ymateb [Gwasanaeth Darlledu Ysbyty Caeredin](#) i'r ymgynghoriad.

yn flaenorol os byddant yn gwneud cais am drwydded eto yn y dyfodol, e.e. deunyddiau hyrwyddo ac offer trawsyrru y gallai fod angen eu haddasu neu eu newid yn dilyn newid amledd. Er ein bod yn amcangyfrif y dylai costau o'r fath fod yn isel mewn termau absoliwt, rydyn ni'n cydnabod y bydd y rhain yn faich. Rydyn ni felly'n cymryd camau i roi deiliaid trwydded mewn gwell sefyllfa i liniaru unrhyw gostau a allai ddeillio o hynny drwy roi gwybod iddynt pa mor aml y byddant yn symud. Fel y gwnaethom ddweud yn yr ymgynghoriad, rydyn ni eisoes wedi nodi amleddau newydd ar gyfer deiliaid trwydded presennol. Ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn, byddwn yn ysgrifennu at y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau SRSL am gyfnod estynedig i roi gwybod iddyn nhw am yr amledd newydd hwn, gan ganiatáu iddyn nhw gynllunio ymhell cyn amser ar gyfer y newid, y gyllideb ar gyfer costau ymlaen llaw neu rannu costau dros gyfnod hirach.

3.28 Ar y cyfan, rydyn ni'n ystyried bod y costau yn cael eu gwrthbwyso gan y manteision ehangach y bydd y dull darpariaeth cyfyngedig yn eu cyflwyno ar ffurf y potensial i ddefnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon a'r cwmpas ehangach ar gyfer RSLs ychwanegol yn y dyfodol. Rydyn ni hefyd o'r farn bod manteision penodol i'r rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau SRSL am gyfnod estynedig:

- Bydd modd dal y drwydded am gyfnod o hyd at bum mlynedd, yn hytrach na bod yn rhaid i ddeiliaid trwydded orfod gwneud cais (a thalu'r ffi ymgeisio gysylltiedig o £400) am drwydded am bob un o'r 28 diwrnod o ddarlledu;
- Bydd trwydded yn awdurdodi cymaint o ddiwrnodau o ddarlledu ag y mae deiliad y drwydded yn ei ddymuno yn ystod ei hyd, yn hytrach na chael ei chyfyngu i 28 diwrnod;
- Bydd gan deiliad y drwydded fynediad parhaus i amledd penodol dros gyfnod ei drwydded, ni fydd unrhyw ymgeisydd arall yn cael yr amledd ar gyfer eu safle; a
- Ni fydd angen i ddeiliaid trwydded ofyn mwyach am gymeradwyaeth gan Ofcom ar gyfer amrywio trwydded os bydd eu diwrnodau darlledu'n newid.

3.29 Am y rhesymau hyn, rydyn ni wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig ymgynghori.

Rydyn ni wedi penderfynu rhoi amledd newydd i ddeiliaid trwydded SRSL cyfnod estynedig os byddant yn gwneud cais am drwydded newydd. Rydyn ni eisoes wedi nodi amleddau newydd ar gyfer deiliaid trwydded presennol a byddwn yn ysgrifennu at y rheini sy'n dal trwyddedau ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn i roi gwybod iddynt am yr amledd newydd y byddant yn ei dderbyn, er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw iddynt am y newid hwn.

Fe wnaethom ddweud ein bod ni eisiau symud deiliaid trwydded LRSL sydd eisoes yn bodoli i amleddau darpariaeth gyfyngedig

Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.30 Fel arfer, mae LRSLS yn cael eu defnyddio gan orsafoedd radio fel radio ysbyty i ddarlledu i leoliadau neu sefydliadau penodol dros gyfnod estynedig. Os bydd deiliaid trwydded LRSL

presennol yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded, rydyn ni'n cynnig eu symud ymlaen i amledd newydd ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol.

3.31 Fe wnaethon ni ofyn i randdeiliaid:

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i roi amleddau darpariaeth gyfyngedig (os oes rhai ar gael) i'r rheini sy'n dal trwyddedau RSL presennol ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded.

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.32 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig. Er enghraifft, dywedodd Radio Cavell eu bod yn cefnogi'r cynnig os yw'n caniatáu i amleddau fod ar gael at ddibenion eraill, a dywedodd Radio Ysbyty Mid Downs eu bod yn cytuno cyhyd â bod amledd darpariaeth cyfyngedig yn cynnig darpariaeth dda ar draws eu safle cyfan.²²
- 3.33 Roedd Radio Gymunedol Caerlŷr yn anghytuno â'n dull gweithredu, gan wrthwynebu "yn y ffordd mwyaf posibl" i'r posibilrwydd o golli eu hamlder presennol.²³
- 3.34 Yn yr un modd â'n cynnig i symud SRSLs am gyfnod estynedig i amleddau newydd, roedd ymatebwyr eraill yn canolbwyntio ar y costau sy'n gysylltiedig â symudiad o'r fath. Dywedodd Gwasanaeth Darlledu Ysbyty Lerpwl / Radio Broadgreen, er y byddai'r syniad o glirio 87.7 – 97.9 MHz ar gyfer RSLs tymor byr yn gwneud synnwyr, y gallai fod costau diangen.²⁴ Dywedodd y Gymdeithas Darlledu Ysbyty y byddai costau "sylweddol" yn gysylltiedig â symud amledd.²⁵ Dywedodd Radio Redhill y dylai gorsafoedd gael yr opsiwn i symud i amledd newydd yn gynt os byddai'n well ganddynt, ond na ddylai fod yn ofynnol i orsafoedd symud os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd y gallai costau symud o'r fath fod yn "afresymol".²⁶ Dywedodd Radio Ysbyty Torbay y byddai symud amleddau yn arwain at oblygiadau o ran costau.²⁷ Dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ac ymatebydd arall [X] na ddylem symud deiliaid trwydded ar amleddau ar wahân i 87.7 – 87.9 MHz oherwydd na fyddai'r costau gwneud hynny'n cyfiawnhau'r manteision.²⁸
- 3.35 Roedd rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu dulliau a fyddai'n lliniaru effaith ariannol newid amledd. Dywedodd Radio Prifysgol York ac Ysbyty Radio Stoke Mandeville y byddai rhoi blwyddyn o rybudd i sefydliadau yn lleihau effaith ariannol newidiadau.²⁹
- 3.36 Nododd rhanddeiliaid faterion eraill hefyd:

²²Ymateb [Radio Cavell](#) i'r ymgynghoriad; ymateb [Radio Ysbyty Mid Downs](#) i'r ymgynghoriad.

²³Ymateb [Radio Cymunedol Caerlŷr](#) i'r ymgynghoriad.

²⁴Ymateb [Gwasanaeth Darlledu Ysbyty Lerpwl / Radio Broadgreen](#) i'r ymgynghoriad.

²⁵Ymateb [y Gwasanaeth Darlledu Ysbyty](#) i'r ymgynghoriad.

²⁶Ymateb [Radio Redhill](#) i'r ymgynghoriad.

²⁷Ymateb [Radio Ysbyty Torbay](#) i'r ymgynghoriad.

²⁸Ymateb [y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol](#) i'r ymgynghoriad.

²⁹Ymateb [Prifysgol Radio York](#) i'r ymgynghoriad; ymateb [Radio Ysbyty Stoke Mandeville](#).

- Nododd rhai ymatebwyr faterion yn deillio o'u rhan yn y treial darpariaeth cyfyngedig. Dywedodd Radio Redhill y byddai'n hoffi parhau ar FM ar ôl y treial ac na ddylai Ofcom fynnu bod deiliaid trwydded yn ailymgeisio.³⁰ Dywedodd ymatebydd dienw [3<] y dylai deiliaid trwydded sy'n rhan o dreial eleni allu ailymgeisio, ar yr amod bod Ofcom yn credu bod pob gweithredwr yn addas i barhau.
- Gofynnodd Radio North Angus pam mai'r norm ar gyfer RSLs sy'n defnyddio sbectrwm darpariaeth cyfyngedig fyddai 300mW, a'r norm ar gyfer trwyddedau presennol fyddai 50mW. Roedd yn cynnig y dylid newid trwyddedau i sicrhau lefelau pŵer cyson.³¹

Ein penderfyniad

- 3.37 Roeddem yn cydnabod yn ein hymgyngoriad y byddai costau i ddeiliaid trwydded ar amledd FM wrth symud i amledd darpariaeth cyfyngedig. Rydyn ni'n amcangyfrif y dylai costau o'r fath fod yn isel mewn termau absoliwt, ond rydyn ni'n cydnabod y bydd y rhain yn faich, yn enwedig ar gyfer ymgeiswyr sy'n elusennau neu sydd heb lawer o gyllid. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y byddai symud rhanddeiliaid i amleddau o'r fath yn gwireddu manteision defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon. Roeddem hefyd o'r farn y byddai'n caniatáu i ddarlledwyr newydd ddechrau gweithredu a darparu manteision i gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan RSL ar hyn o bryd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth gan ymatebwyr i awgrymu na fyddai'r manteision hyn yn cael eu gwireddu. Rydyn ni'n nodi mai dim ond deiliaid trwydded ar FM fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn. Ni fydd hyn yn effeithio ar y rheini sy'n gweithredu ar AM.
- 3.38 Fodd bynnag, rydyn ni wedi ystyried awgrymiadau rhanddeiliaid ynghylch sut y gallem leihau effaith y costau sy'n gysylltiedig â newid amledd drwy roi mwy o rybudd am newid i'r rheini sy'n dal trwyddedau. Yn yr un modd â'n dull gweithredu ar SRSs am gyfnod estynedig, rydyn ni'n awyddus i liniaru effaith y costau sy'n gysylltiedig â'n dulliau gweithredu polisi ar randdeiliaid lle bo hynny'n bosibl.
- 3.39 Felly, byddwn yn rhoi o leiaf 12 mis o rybudd ymlaen llaw i bob deiliad trwydded cyfredol am yr amledd darpariaeth cyfyngedig newydd y byddant yn symud iddo os byddant yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded ar ddiwedd cyfnod presennol y drwydded. Bydd yr addasiad hwn yn galluogi deiliaid trwydded i baratoi a lledaenu costau dros gyfnod hwy, gan helpu i liniaru effaith newidiadau i amleddau.
- 3.40 Yng ngoleuni ein dull gweithredu diwygiedig a gan ystyried ein hamcangyfrif y dylai'r costau posibl sy'n deillio o newid amledd fod yn isel mewn termau absoliwt, rydyn ni'n dal o'r farn y bydd manteision symud deiliaid trwydded i amleddau cwmpas cyfyngedig newydd yn drech nag unrhyw gostau a allai godi.
- 3.41 Mewn perthynas â sylwadau eraill a godwyd gan randdeiliaid, mae ein hymatebion fel a ganlyn:

³⁰Ymateb [Radio Redhill](#) i'r ymgyngoriad.

³¹Ymateb [Radio North Angus](#) i'r ymgyngoriad.

- Mewn egwyddor, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r posibilrwydd y bydd deiliaid trwydded a fydd yn cael eu symud i amledd newydd ar ddiwedd cyfnod eu trwydded yn gwneud hynny'n gynharach. Fodd bynnag, byddai angen i ni ystyried ein llwyth gwaith parhaus ar drwyddedu a rheoli sbectrwm, yn ogystal ag argaeledd y sbectrwm. Byddem yn annog deiliaid trwydded yn y sefyllfa hon i gysylltu â ni i drafod y posibilrwydd hwn.
- Holodd ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan yn ein treial darpariaeth cyfyngedig am ddyfodol eu trwyddedau ar ôl y cyfnod treial. Fel y nodir yn ein gwahoddiad i wneud cais am y drwydded treial darpariaeth gyfyngedig, mae gan drwyddedau o'r fath gyfnod penodol o ddeuddeg mis.³² Rydyn ni'n bwriadu ymgysylltu â'n deiliaid trwydded sydd ar brawf yn fuan ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn er mwyn trafod trefniadau yn y dyfodol.
- O ran y lefelau pŵer gwahanol ar gyfer RSLs presennol (50mW) a'r ddarpariaeth gyfyngedig ar gyfer RSLs (300 mW), mae hyn yn deillio o'r ffaith bod RSLs presennol fel arfer yn gweithredu ar 87.7 - 87.9 MHz, sef amleddau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer RSLs yn unig. Felly, dim ond gan RSLs eraill y bydd ymyriant i'r amleddau hyn yn dod. Bydd yr amleddau a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau darpariaeth cyfyngedig yn amrywio rhwng 88.0 MHz a 107.9 MHz (rhannu sbectrwm â gwasanaethau radio FM eraill). Oherwydd hyn, bydd mwy o risg o ymyriant gan y gwasanaethau hyn sy'n effeithio ar RSLs amledd cyfyngedig. Byddwn yn awdurdodi deiliaid trwydded sy'n gweithredu mewn sbectrwm darpariaeth gyfyngedig i drawsyrro ar lefelau pŵer uwch oherwydd bydd yn caniatáu iddynt oresgyn yr ymyriant hwn.
- Ynglŷn â'r farn na ddylai Ofcom symud deiliaid trwydded ar amleddau ar wahân i 87.7 – 87.9 MHz, dim ond un deiliad trwydded sydd ar amledd darpariaeth heb gyfyngiad ar wahân i 87.7 – 87.9 MHz. Byddwn yn ystyried yr achos hwnnw yn ôl ei rinweddau maes o law.

Rydyn ni wedi penderfynu symud deiliaid trwydded RSL tymor hir i amleddau cwmpas cyfyngedig newydd, pan fyddant ar gael, ar ddiwedd cyfnod eu trwydded. Byddwn yn rhoi o leiaf 12 mis o rybudd i'r rheini sy'n dal trwyddedau am eu hamledd newydd cyn i'w trwyddedau ddod i ben.

Fe ddywedon ni ein bod ni eisiau gwneud newidiadau i'n ffurflen gais a'n canllawiau

Roeddem wedi cynnig nifer o newidiadau i'n ffurflen gais

3.42 Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cynnig gwneud mân newidiadau i'r broses ymgeisio a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer trwyddedau RSL:

- Caniatáu i ymgeiswyr fynychu digwyddiadau ar wahân gan ddefnyddio un ffurflen gais.

³² https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/216248/invitation-to-apply-limited-coverage-rsl-trial.pdf

- Gostwng y nifer sy'n derbyn ceisiadau am drwydded o 180 diwrnod i 120 diwrnod cyn dyddiad dechrau arfaethedig y darllediad.
 - Dim ond ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr presennol i ohirio'r darllediad arfaethedig hyd at ddyddiad o fewn 120 diwrnod i ddyddiad y cais.
 - Diwygio ein canllawiau i ddileu'r cyfnod trwydded sylfaenol ar gyfer RSLs sy'n darlledu i sefydliad neu leoliad diffiniedig arall.
 - Cael gwared ar y cyfyngiadau daearyddol sydd gennym ar waith ar hyn o bryd, a derbyn ceisiadau am wasanaethau FM neu AM cyfyngedig unrhyw le yn y DU.
 - Lle nad yw amledd darpariaeth gyfyngedig ar gael, yn gyffredinol, ystyried ceisiadau am Drwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig lle na fu cais yn ystod y 18 mis blaenorol.
 - Newid y ffurflen gais a'r canllawiau i gyfleu bod rhaid i'r ymgeisydd am wasanaeth cyfyngedig fod yn berson neu'n gorff a fydd yn darparu'r gwasanaeth.
 - Addasu ein hymagwedd at gyfnodau galw uchel: efallai y byddwn yn cynnal mwy nag un enw ar hap er mwyn sicrhau ein bod yn dyrannu'r holl amleddau sydd ar gael.
- 3.43 Roeddem wedi adlewyrchu'r newidiadau hyn yn y canllawiau diwygiedig arfaethedig yn Atodiad 4 yr ymgynghoriad.
- 3.44 Fe wnaethon ni ofyn:

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newidiadau hyn i'n proses ymgeisio, fel y nodir yn y canllawiau diwygiedig yn Atodiad 4?

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.45 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang i'r newidiadau roeddem yn eu cynnig. Dywedodd Cymdeithas Darlledwyr a Newyddiadurwyr Asiaidd y DU fod y broses ymgeisio'n "dda ac yn syml".³³ Disgrifiodd Radio Anker y newidiadau fel rhai "defnyddiol iawn".³⁴ Disgrifiodd Radio Clatterbridge ein newidiadau fel "cam cadarnhaol".³⁵ Yn benodol, roedd rhanddeiliaid fel Radio Redhill a Radio Ysbyty Torbay yn cefnogi'r newid yr oeddem yn bwriadu ei wneud i hunaniaeth deiliad y drwydded.³⁶
- 3.46 Cytunodd y Gymdeithas Darlledu Ysbytai â'n cynigion ond cododd nifer o faterion pellach:
- Gofynnodd i Ofcom gyhoeddi ar ei wefan restr o'r manau lle rydyn ni eisoes yn gwybod nad yw amleddau darpariaeth gyfyngedig ar gael. Gofynnodd hefyd i Ofcom gyhoeddi'r rhestr o weithgarwch SRSL y mae'n ei defnyddio i benderfynu a allai LRSL gael ei drwyddedu yn 87.7-87.9 MHz lle nad oes sbectrwm darpariaeth gyfyngedig ar gael.
 - Roedd yn argymhell ein bod yn diwygio'r ffurflen gais am drwydded er mwyn ei gwneud hi'n glir bod rhaid i'r sefydliad fod yn deiliad i'r drwydded pan fo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan sefydliad corfforedig o unrhyw ffurf. Roedd hefyd yn argymhell addasu'r

³³Ymateb [Cymdeithas Darlledwyr a Newyddiadurwyr Asiaidd y DU](#) i'r ymgynghoriad.

³⁴Ymateb [Radio Anker](#) i'r ymgynghoriad.

³⁵Ymateb [Radio Clatterbridge](#) i'r ymgynghoriad.

³⁶Ymateb [Radio Redhill](#) i'r ymgynghoriad; ymateb [Radio Ysbyty Torbay](#) i'r ymgynghoriad.

canllawiau a'r ffurflen gais i ddangos pa adrannau o'r ffurflen gais y mae angen eu llenwi pan fo'r ymgeisydd yn unigolyn ar ran sefydliad anghorfforedig.

- Dywedodd pan fo cais yn cael ei wneud ar ran sefydliad anghorfforedig, y dylai Ofcom ganiatáu i'r unigolyn sy'n dal y drwydded ar ran y sefydliad fod yn rhywun heblaw aelod o bwyllgor rheoli'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Disgrifiodd sefyllfa lle mae elusen yn darlledu ei gwasanaeth i safle ysbyty trwy RSL a thrwy ffrwd rhyngwyd i ystafelloedd aros gwasanaethau meddygon teulu. Dywedodd ei fod yn gobeithio na fyddai trawshyrwyddo, megis cyd-ddarlledu gwasanaeth RSL (e.e. drwy ddweud "gwrandedwch arnom ni [ar] 95.1FM yn Ysbyty XYZ, neu ar-lein ar draws ardal XYZ") yn mynd yn groes i'r gofyniad i beidio â chyfarwyddo gwasanaeth RSL i wrandawyr y tu allan i'r ardal drwyddedig.³⁷

3.47 Cododd rhanddeiliaid eraill bwyntiau pellach:

- Dywedodd Radio Prifysgol York y byddai'n well ganddi newid geiriad i'w gwneud hi'n glir na fyddai newidiadau i fwrdd ymddiriedolwyr sefydliad sy'n gwneud cais yn gofyn am newid costus i delerau'r drwydded.
- Dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, pan fydd digwyddiadau'n gorgyffwrdd, y dylai Ofcom roi blaenoriaeth i ddyrannu sbectrwm RSL yn deg rhwng gwahanol gymunedau.³⁸
- Dywedodd transplan UK y dylai Ofcom nawr leihau'r ffioedd ymgeisio i adlewyrchu ei lwyth gwaith is.³⁹

Ein penderfyniad

3.48 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r newidiadau roeddem yn eu cynnig yn gyffredinol. Nid oedd unrhyw ddadleuon cryf wedi'u nodi yn erbyn y newidiadau roeddem wedi'u cynnig i'r broses ymgeisio a'r canllawiau, ac felly byddwn yn rhoi'r rhain ar waith.

3.49 O ran y materion penodol a godwyd gan y Gymdeithas Darlledu Ysbyty:

- Yn gyffredinol, mae amleddau darpariaeth cyfyngedig yn llai tebygol o fod ar gael mewn dinasoedd nag ardaloedd mwy gwledig, ond gall hyn amrywio yn ôl lleoliad. Nid ydyn ni'n gallu darparu rhestrau o'r lleoedd lle nad oes llawer o sbectrwm darpariaeth ar gael, na'r rhestr o weithgareddau SRSL rydyn ni'n eu defnyddio, oherwydd bod argaeledd sbectrwm yn dibynnu ar amgylchiadau unigol iawn (gan gynnwys lleoliad, y ddarpariaeth ofynnol a'r tir) sy'n amrywio yn ôl y defnydd. Byddem yn annog partïon sydd â diddordeb i gysylltu â ni cyn gwneud cais ffurfiol os ydynt yn dymuno trafod argaeledd tebygol sbectrwm mewn ardal.
- Er na allwn roi arweiniad penodol i ymgeiswyr, rydyn ni'n fodlon trafod unrhyw faterion cyffredinol wrth lenwi'r ffurflen y bydd ymgeiswyr yn dod ar eu traws wrth wneud eu cais. I gadarnhau pa adrannau sydd angen eu llenwi gan ba gyrff:

³⁷Ymateb [y Gwasanaeth Darlledu Ysbyty](#) i'r ymgynghoriad.

³⁸Ymateb y [Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol](#) i'r ymgynghoriad.

³⁹Ymateb [transplan UK](#) i'r ymgynghoriad.

- Dylai cyrff corfforaethol lenwi adran 3.
 - Dylai cyrff anghorfforedig lenwi adran 5; a
 - Dylai unigolion sy'n dymuno dal trwydded yn eu henw eu hunain lenwi adran 2.
- O ran y cais y dylai'r sawl sy'n dal y drwydded ar ran y sefydliad fod yn rhywun ar wahân i aelod o'r pwyllgor rheoli – rhaid i ddeiliad y drwydded fod yn ddarparwr y gwasanaeth. Yn y cyd-destun hwn, mae 'person' yn golygu naill ai unigolyn neu gorff, ac rydyn ni'n ystyried mai person fydd darparwr y gwasanaeth os bydd ganddo reolaeth effeithiol dros ddewis rhaglenni sy'n cynnwys y gwasanaeth a'i sefydliad mewn amserlen rhaglenni.⁴⁰ Ni chodir unrhyw dâl am drosglwyddo'r drwydded.
 - Er na allwn ragfarnu canlyniad ein hymateb i unrhyw gwynion a gawn, ni ddylid ond hyrwyddo a chyfeirio RSL analog at wrandawyr yn y sefydliad neu'r lleoliad diffiniedig y mae wedi'i drwyddedu i'w wasanaethu. Os yw'r gwasanaeth darlledu'n cael ei ddarlledu ar yr un pryd ar lwyfan arall (e.e. ar-lein), mae'n dderbyniol i drawshyrwyddo'r gwasanaeth hwnnw ar y RSL, neu i'r gwrthwyneb.

3.50 Nododd rhanddeiliaid bwyntiau eraill hefyd:

- O ran y pryderon gan Brifysgol Radio York ynghylch newidiadau i'r drwydded, gallwn gadarnhau nad oes ffi ynghlwm wrth ddiwygio trwydded sy'n cynnwys newid yn y rhai sy'n ymwneud â chorff deiliad y drwydded, h.y. os yw'r drwydded yn cael ei dal gan gorff corfforedig gyda'r ymddiriedolwyr, a bod yr ymddiriedolwyr hynny'n cael eu newid, ni fyddai ffi'n cael ei chodi am roi gwybod i ni am y newidiadau hynny. Dim ond os yw ymgeisydd yn dymuno newid manylion ei gais ar ôl iddo gael ei dderbyn y mae ffioedd newid yn daladwy, ond bydd rhaid i hynny fod cyn i ni gyhoeddi'r drwydded. Os bydd deiliad y drwydded yn dymuno trosglwyddo'r drwydded i unigolyn/corff gwahanol ar ôl i ni ei chyhoeddi, nid oes ffi ynghlwm.
- O ran ceisiadau'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ynghylch digwyddiadau sy'n gorgyffwrdd yn ystod cyfnod o alw mawr pan fydd mwy nag un amledd ar gael, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydyn ni'n ystyried y posibilrwydd o gynnal nifer o gyfweiliadau. Byddwn yn dewis ar hap yn unol â'r ceisiadau y byddwn yn eu derbyn, ac yn y ffordd sydd, yn ein barn ni, yn fwyaf addas i gyflawni ein dyletswyddau.
- O ran sylwadau transplan UK, rydyn ni'n trafod y newidiadau arfaethedig i'r ffioedd isod.

⁴⁰ Fel y diffinnir yn adran 362(2)(h) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng [Nghanllawiau Ofcom ar sefyllfa drwyddedu 'darparwr gwasanaeth' ac 'is-ddyrannu capasiti'](#)

Rydyn ni wedi penderfynu rhoi mân newidiadau ar waith i'r broses gais a'r canllawiau.

Roeddem eisiau gofyn i'r Llywodraeth leihau'r baich rheoleiddio ar ddefnyddwyr ADSRSLs a gwasanaethau ystod fer sy'n datblygu

Yr hyn a ddywedon ni

- 3.51 Mae gwasanaethau cyfyngedig y system dosbarthu sain ('ADSRSLs') yn darlledu cynnwys sain ar gyfer darpariaeth uniongyrchol gan y rheini mewn ardal fach a ddiffinnir (gweler Tabl 1). Mae gwasanaethau o'r fath yn wahanol i SRSLs neu LRSLs oherwydd eu bod yn defnyddio amleddau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan orsafoedd FM nac AM confensiynol. Mae enghreifftiau o'r gwasanaethau hyn yn cynnwys systemau ar gyfer clywed sylwebaeth chwaraeon mewn stadiwm neu gyfieithiadau sain mewn cynadleddau. Rydyn ni hefyd wedi gweld technolegau amgen yn cael eu defnyddio i drosglwyddo cynnwys sain, e.e. mewn disgos tawel.
- 3.52 Pan ymgynghorwyd â ni, fe wnaethon ni ddweud fod gwasanaethau o'r fath mewn perygl isel iawn o achosi niwed ac y byddai'n briodol i systemau o'r fath fod yn destun trefn reoleiddio llai manwl. Felly, fe wnaethon ni gynnig gofyn i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ystyried gwneud gorchymyn o dan adran 97 BA90 a sy'n darparu eithriad ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau rhag gorfod dal trwydded BA.
- 3.53 Fe wnaethon ni ofyn:

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ystyried gwneud gorchymyn a fyddai'n darparu eithriad i rai gwasanaethau penodol o'r angen i ddal trwydded Deddf Darlledu?

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.54 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cefnogi ein cynnig, ac nid oedd eraill yn gwrthwynebu. Er enghraifft, roedd unigolyn yn cyfeirio at ein cynnig fel "syniad da".⁴¹ Dywedodd dgi Media y byddai unrhyw ddull sy'n lleihau costau rhedeg RSL yn fuddiol.⁴²
- 3.55 Cododd rhai deiliaid trwydded bwyntiau pellach:
- Dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol y dylai Ofcom ystyried a yw ei ddull newydd o gynllunio sbectrwm yn caniatáu creu aseiniadau mono yn unig is-safonol.⁴³
 - Dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol hefyd y dylai Ofcom ystyried gwahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i gael gwared â'r gofynion ar gyfer AM LRSL o ran safleoedd a

⁴¹Ymateb [S. Hockenhull](#) i'r ymgynghoriad.

⁴²Ymateb [dgi Media](#) i'r ymgynghoriad.

⁴³Ymateb y [Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol](#) i'r ymgynghoriad.

phoblogaethau nad ydynt yn breswylwyr. Dywedodd ymatebydd cyfrinachol [X] y dylid agor y rheol un safle er mwyn caniatáu darllediadau i ardaloedd daearyddol dwys iawn.

- Gofynnodd ymatebydd cyfrinachol [X] am gynydd i'r pwerau yn yr eithriad trwydded i ganiatáu ar gyfer trosglwyddyddion o uchafswm o 0.5W.

Ein penderfyniad

3.56 Gan nad oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'n cynigion nac yn rhoi tystiolaeth yn eu herbyn, rydyn ni wedi penderfynu mabwysiadu'r safbwynt a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad.

3.57 O ran y pwyntiau pellach a nodwyd gan ymatebwyr:

- Nodwn ddiddordeb y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol mewn aseiniadau Saesneg mono yn unig is-safonol. Ein dewis cryf fydd dyrannu amledd FM gan ddefnyddio'r dull darpariaeth cyfyngedig sydd wedi'i gynllunio ar sail stereo o ansawdd da. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae darpariaeth neu ymyriant yn broblem fawr, rydyn ni weithiau'n caniatáu gweithredu mewn mono, yn yr un modd â gwasanaethau radio trwyddedig eraill. Rydyn ni hefyd yn nodi bod y dull darpariaeth cyfyngedig ar gyfer FM pŵer isel, sy'n golygu mai dim ond ardal ddarlledu fach y bwriedir ei defnyddio.
- O ran sylwadau ar y rheol un safle, nid ydyn ni'n ystyried bod cael gwared ar y gofynion un safle parhaus er budd defnyddwyr ar hyn o bryd. Bwriedir i RSLs fod ag ardaloedd darpariaeth bach iawn ac maen nhw'n gweithredu mewn un lleoliad diffiniedig sydd fel arfer heb boblogaeth breswyl barhaol. Rydyn ni o'r farn y byddai dileu'r rheol un safle yn mynd yn groes i'r bwriad hwn ac yn symud RSLs yn nes at fod yn gynnyrch trwydded o fath radio cymunedol, ac nid dyna yw eu pwrpas.
- O ran sylwadau'r ymatebydd cyfrinachol ar gynydd yn yr eithriad trwydded i uchafswm pŵer o 0.5W, rydyn ni o'r farn y byddai eithriad o'r fath yn mynd ymhellach o lawer na'r hyn roeddem wedi'i gynnig yn yr ymgynghoriad. Roedd yr eithriad arfaethedig ar gyfer dyfeisiau pŵer isel iawn sydd (i) â darpariaeth isel iawn oherwydd y pwerau isel hyn a (ii) yn peri risg fach iawn o gynulleidfa allanol yn gwrando ar wasanaethau o'r fath. Ni fyddai'r meini prawf hyn yn cael eu bodloni ar gyfer dyfeisiau hyd at 0.5W felly ni fyddem yn credu ei bod yn briodol i wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn sy'n darparu eithriad ar gyfer dyfeisiau o'r fath.

Rydyn ni wedi penderfynu gwahodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ystyried gwneud gorchymyn a fyddai'n darparu eithriad i ADSRSLs a gwasanaethau ystod byr sy'n datblygu o'r angen i ddal trwydded Deddf Darlledu.

Ein nod oedd symleiddio'r drefn ffioedd ar gyfer RSLs

Yr hyn a ddywedon ni

Ein ffioedd presennol a pham ein bod yn cynnig eu newid

- 3.58 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n trwyddedu RSLs ar sail a yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am SRSL neu LRSL.
- 3.59 Mae gan SRSLs ffi ymgeisio o £400. Codir ffi trwydded ychwanegol ar wahân ar sail ddyddiol ar gyfer pob un o'r trwyddedau BA a WTA y mae'r gwasanaethau hyn eu hangen. Mae'r gyfradd ddyddiol a godir yn amrywio yn ôl y pŵer a ddefnyddir i drosglwyddo ac a yw'r gwasanaeth yn darlledu ar AM neu FM. Mae'r tabl isod yn nodi hyn.

Tabl 2 Ffioedd SRSL cyfredol

	Ffi BA	Ffi WTA	Cyfanswm Ffioedd
1 wat AM			
Cyfradd ddyddiol	£10	£15	£25
1 wat FM			
Cyfradd ddyddiol	£10	£25	£35
Dros 1 wat			
Cyfradd ddyddiol	£30	£40	£70

- 3.60 Mae gan LRSLs ffi ymgeisio o £200. Mae ffi drwydded flynyddol ar wahân ar gyfer pob un o'r trwyddedau BA a WTA, sy'n amrywio yn ôl a yw'r gwasanaeth yn darlledu ar AM, FM neu drwy ddefnyddio dolen sain. Nodir hyn isod.

Tabl 3 Ffioedd LRSL cyfredol

	Ffi BA flynyddol	Ffi WTA flynyddol	Cyfanswm Ffioedd
AM	£275	£100	£375
FM	£140	£100	£240

Dolen sain	£140	£100	£240
-------------------	------	------	------

3.61 Mae ffi ddiwygio o £200 ar gyfer SRSLs a LRSLs, ac rydyn ni'n codi tâl am y rhain am newidiadau i gais lle rydyn ni eisoes wedi derbyn y cais.

Ein cynigion ymgynghori

3.62 Roeddem am newid y strwythur ffioedd ar gyfer RSLs am sawl rheswm:

- i symleiddio'r strwythur ffioedd;
- i adlewyrchu nad yw ein costau'n gwahaniaethu'n amlwg rhwng AM a FM; a
- i gyflwyno terfyn blynyddol i sicrhau bod ffioedd yn parhau i fod yn gymesur.

3.63 Ar gyfer RSLs sy'n trosglwyddo hyd at ac yn cynnwys 2 wat, fe wnaethon ni gynnig codi cyfradd ddyddiol o £30 am ffi'r drwydded BA a £40 am ffi'r drwydded WTA, hyd at derfyn blynyddol o £210 am ffi'r drwydded BA a £240 am ffi'r drwydded WTA. Ar gyfer RSLs sy'n trosglwyddo dros 2 wat, fe wnaethon ni gynnig codi cyfradd ddyddiol o £30 am ffi'r drwydded BA a £40 am ffi'r drwydded WTA, hyd at derfyn blynyddol o £900 am ffi'r drwydded BA a £1200 am ffi'r drwydded WTA. Fe wnaethon ni ddweud bod ffioedd o'r fath yn adlewyrchiad priodol o'n costau.

3.64 Roedd y strwythur ffioedd newydd roeddem yn ei gynnig fel y mae wedi'i nodi yn Nhabl 4.

Tabl 4 Y lefelau ffioedd newydd ar gyfer RSL yr ymgynghorwyd arnynt

	Cyfradd ddyddiol ffi BA	Cyfradd ddyddiol ffi WTA	Cyfanswm ffioedd dyddiol	Terfyn blynyddol BA	Terfyn blynyddol WTA	Cyfanswm yr uchafswm ffioedd blynyddol
Hyd at ac yn cynnwys 2W	£30	£40	£70	£210	£240	£450
Uwchlaw 2W	£30	£40	£70	£900	£1200	£2100

3.65 O dan y cynigion hyn, byddai deiliaid trwydded sy'n gweithredu hyd at ac yn cynnwys 2 wat (hynny yw, deiliaid trwydded LRSL presennol yn bennaf) yn wynebu cynnydd cyffredinol mewn ffioedd o £75 i £450 (os ydynt yn darlledu ar AM) neu £210 i £450 (os ydynt yn darlledu ar FM).

3.66 Byddai deiliaid trwydded sy'n gweithredu ar dros 2 wat (hynny yw, deiliaid trwydded SRSL presennol) naill ai'n talu'r un faint mewn ffioedd trwydded, neu'n wynebu gostyngiad os byddant yn darlledu am dros 30 diwrnod.

3.67 Roeddem hefyd yn cynnig na fyddem yn gosod ffioedd mwyach ar gyfer RSLs sy'n darlledu drwy ddolenni sain ac y byddem yn rhoi'r gorau i drwyddedu'r systemau hyn gan nad ydynt yn cael eu defnyddio erbyn heddiw.

- 3.68 Nid oeddem yn cynnig newidiadau i lefel ein ffioedd diwygio na ffioedd gwneud cais. Fodd bynnag, fe wnaethon ni ddweud os fydd ymgeisydd yn gwneud nifer o geisiadau i dalu am ddigwyddiadau ar wahân o fewn cyfnod o dri mis, dim ond un ffi ymgeisio y byddem yn ei chodi.
- 3.69 Fe wnaethon ni ofyn:

Cwestiwn 7: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ffioedd arfaethedig Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig?

Ymatebion rhanddeiliaid

- 3.70 Cytunodd nifer fach o randdeiliaid, fel Radio Ysbyty Seaside a Radio Cavell, â'n cynigion.⁴⁴ Fodd bynnag, roedd nifer o randdeiliaid eraill yn anghytuno â'n cynigion. Wrth gynhoi'r maes hwn sy'n destun anghytundeb, rydyn ni wedi rhannu safbwyntiau rhanddeiliaid yn grwpiau: (a) safbwyntiau ar ffioedd ar gyfer RSLs hyd at ac yn cynnwys 2 wat; (b) barn ar ffioedd ar gyfer RSLs dros 2 wat; ac (c) barn ar faterion eraill.

Ffioedd ar gyfer RSLs hyd at ac yn cynnwys 2 wat

- 3.71 Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn anghytuno â lefel y ffioedd roeddem wedi'u cynnig ar gyfer RSLs hyd at a chan gynnwys 2 wat ar y sail y byddai ein cynigion yn arwain at gynydd mawr ar gyfer deiliaid trwydded LRSL presennol. Er enghraifft, disgrifiodd un person y ffioedd fel costau "gormodol iawn".⁴⁵ Dywedodd Radio North Angus fod y cynnydd cyffredinol mewn ffioedd (h.y. ffioedd cyfun ar gyfer trwyddedau BA a WTA) yn gynydd o 87.5%.⁴⁶ Dywedodd y Gymdeithas Darlledu Ysbyty fod y ffioedd arfaethedig yn ymddangos yn fawr o'u cymharu â'r ffioedd ar gyfer cynnyrch trwydded radio eraill.⁴⁷
- 3.72 Canolbwyntiodd rhai rhanddeiliaid ar yr effaith bosibl ar y mudiadau bach a/neu elusennol sy'n gweithredu yn y sector. Er enghraifft, dywedodd ymateb arall gan radio Ysbyty Seaside y gallai'r rheini sydd â chyllideb llym gael eu heithrio pe bai'r costau'n rhy uchel.⁴⁸ Dywedodd Radio Prifysgol York y dylai Ofcom ystyried effaith y cynnydd mewn ffioedd ar ddarlledwyr sy'n fyfyrwyr, sydd â chyllidebau bach a chwmpas cyfyngedig i godi arian.⁴⁹ Dywedodd Radio North Angus fod gan y cynnydd mewn ffioedd "y potensial i ddadsefydlogi hyfywedd ariannol gorsafoedd bach."⁵⁰ Dywedodd Radio Forest fod angen i'r ffioedd fod yn fforddiadwy i elusennau a mudiadau di-elw.⁵¹
- 3.73 Roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu dulliau gwahanol. Er enghraifft, dywedodd dgi Media y byddai gostwng ffioedd yn annog defnydd ehangach o'r rhwydwaith RSL.⁵² Awgrymodd

⁴⁴Ymateb 2 [Ysbyty Radio Seaside](#) i'r ymgynghoriad; ymateb [Radio Cavell](#) i'r ymgynghoriad .

⁴⁵Ymateb [S. Hockenhull](#) i'r ymgynghoriad.

⁴⁶Ymateb [Radio North Angus](#) i'r ymgynghoriad.

⁴⁷Ymateb [y Gwasanaeth Darlledu Ysbyty](#) i'r ymgynghoriad.

⁴⁸Ymateb [Ysbyty Radio Seaside](#) i'r ymgynghoriad.

⁴⁹Ymateb [Prifysgol Radio York](#) i'r ymgynghoriad.

⁵⁰Ymateb [Radio North Angus](#) i'r ymgynghoriad.

⁵¹Ymateb [Radio Forest](#) i'r ymgynghoriad.

⁵²Ymateb [dgi Media](#) i'r ymgynghoriad.

Radio Ysbyty Mid Downs ostyngiad mewn ffioedd i fudiadau elusennol.⁵³ Dywedodd ymatebydd cyfrinachol [X] y dylai'r ffioedd (is) a ddyfynnwyd ar gyfer y treial cyfyngedig o drwyddedau RSL gael eu cyflwyno a bod hyn yn gyfle i gynyddu ffrwd referniw Ofcom.

Ffioedd ar gyfer RSLs sy'n fwy na 2 wat

- 3.74 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch ein cynigion sy'n canolbwyntio ar y ffioedd ar gyfer trwyddedau dros 2 wat.
- Roedd Radio Cymunedol Caerlŷr yn anghytuno â'n ffioedd arfaethedig ar gyfer RSLs dros 2 wat, gan ddweud bod ffi o £1200 y flwyddyn yn rhy isel. Cynigiodd y byddai ffi o £1200 am bob cyfnod o drigain diwrnod yn fwy priodol.⁵⁴ Roedd ymatebydd arall [X] yn cytuno, gan ddweud y byddai cyfradd o £1200 am bob 60 diwrnod yn ostyngiad sylweddol, heb gynrychioli ymateb byrbwyll.
 - Nododd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol y gallai cyfanswm y cap blynyddol ar ffioedd, sef £2100, ei gwneud hi'n bosibl i ddeiliad y drwydded redeg gwasanaeth llawn amser yn effeithiol drwy gael trwyddedau RSL olynol. Roedd yn cynnig y dylai'r ffi fod yn £2100 am fwy nag un RSLs yn olynol ar gyfer yr un deiliad trwydded.⁵⁵ Gwnaeth ymatebydd arall [X] bwynt tebyg ynghylch y cap WTA o £1200.

Materion eraill

- 3.75 Nododd rhanddeiliaid faterion eraill hefyd.
- Dywedodd un ymatebydd [X] y byddai'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn cael ei gyfiawnhau petai'r pŵer "safonol" ar gyfer LPAM yn cael ei gynyddu i 2 wat o EMRP.
 - Dywedodd Radio Prifysgol York fod y terfyn o 2 wat yn haenau ffi'r drwydded yn rhy isel ac nad oedd yn adlewyrchu'r senarios o ddefnyddio yn y DU. Roedd yn cynnig bod 5W yn lefel fwy rhesymol.⁵⁶
 - Cyfeiriodd dau ymatebydd at y cynnydd yn y llawr sŵn ar draws AM a FM.⁵⁷

Ein penderfyniad

- 3.76 Roedd nifer o randdeiliaid a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn gwrthwynebu lefel y cynnydd mewn ffioedd a gynigiwyd gennym ar gyfer gwasanaethau a fyddai'n gweithredu hyd at ac yn cynnwys 2 wat. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o drwyddedau sy'n gweithredu hyd at ac yn cynnwys 2 wat yn cael eu rhoi ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu sefydliadau neu leoliadau diffiniedig eraill, yr ydym yn rhoi trwyddedau LRSL ar eu cyfer ar hyn o bryd. Dywedodd mwy nag un rhanddeiliad y gallai lefel y ffioedd roeddem yn eu cynnig "ddadsefydlogi" deiliaid trwydded yn y sector neu y gallai'r effaith eithrio gorsafoedd gyda chyllideb fach rhag gweithredu.

⁵³Ymateb [Radio Ysbyty Mid Downs](#) i'r ymgynghoriad.

⁵⁴Ymateb [Radio Cymunedol Caerlŷr](#) i'r ymgynghoriad.

⁵⁵Ymateb y [Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol](#) i'r ymgynghoriad.

⁵⁶Ymateb [Prifysgol Radio York](#) i'r ymgynghoriad.

⁵⁷Ymateb [S. Hockenhull](#) i'r ymgynghoriad.

- 3.77 Wrth bennu ffioedd trwyddedau darlledu, rhaid i Ofcom weithredu yn unol â'i Ddatganiad o Egwyddorion Codi Tâl⁵⁸ a gofynion adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion bod cyfanswm y ffioedd hyn yn ddigon i gwrdd â chostau Ofcom wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio darlledu, ond heb fod yn fwy na'r costau hynny, a bod y ffioedd y mae'n eu gosod yn gymesur.
- 3.78 O fewn y fframwaith hwn, roedd ein cynigion ymgynghori penodol ar ffioedd trwyddedau ar gyfer RSLs yn ceisio darparu strwythur ffioedd symlach.
- 3.79 Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiadau clir i'r cynnydd mewn ffioedd a gynigiwyd gennym ar gyfer RSLs hyd at ac yn cynnwys 2 wat oherwydd eu heffaith bosibl ar ddeiliaid trwydded sydd â chyllidebau cyfyngedig. Nododd Radio North Angus, er enghraifft, y byddai'r cynnydd arfaethedig cyffredinol ar gyfer eu trwyddedau o fwy nag £800 yn cynrychioli cynnydd o 10% ar eu cyllideb flynyddol.⁵⁹ Roedd ein hymchwil ein hunain yn tueddu i gadarnhau bod gan rai o'n deiliaid trwydded LRSL presennol gyllidebau tynn.
- 3.80 Felly, roeddem yn derbyn bod pryderon ynghylch y cynnydd cyfun arfaethedig yn y ffi flynyddol gyffredinol i £450 ar gyfer rhai o'n deiliaid trwydded. Ar gyfer sefydliadau sydd â chyllidebau cyfyngedig a chwmpas cyfyngedig i godi arian ychwanegol, roeddem o'r farn y gallai'r cynnydd mewn ffioedd eu rhwystro rhag parhau i weithredu, a oedd yn cefnogi safbwyntiau rhanddeiliaid.
- 3.81 Byddai llai o alw o'r fath yn effeithio ar y graddau y gallwn adennill ein costau. Byddai hefyd yn effeithio ar y defnydd effeithlon o sbectrwm: byddai llai o RSLs yn defnyddio'r sbectrwm sydd ar gael iddynt.
- 3.82 Felly, rydyn ni'n teimlo y byddai pennu cynnydd mwy cymedrol mewn ffioedd yn ddull gwell. Byddai hyn yn dal i'n galluogi i adennill ein costau gan y dylai ffi is olygu bod mwy o ddeiliaid trwydded. Byddai hefyd yn fwy tebygol o arwain at ddefnyddio'r sbectrwm yn effeithlon oherwydd byddai cynnydd llai mewn ffioedd yn llai o anogaeth i'r rheini sy'n dal trwyddedau roi'r gorau i ddal RSL neu i ddarparu deiliaid trwydded newydd i wneud cais am un. Yn gyffredinol, rydyn ni o'r farn bod hwn yn gynydd cymesur mewn ffioedd sydd fwyaf tebygol o gyflawni ein nodau polisi.
- 3.83 Mae'r strwythur ffi rydyn ni wedi penderfynu ei fabwysiadu wedi'i nodi isod.

Tabl 5 Y ffioedd y byddwn yn eu mabwysiadu ar gyfer RSLs sy'n gweithredu hyd at ac yn cynnwys 2 wat

Cyfradd ddyddiol ffi BA	Cyfradd ddyddiol ffi WTA	Cyfanswm ffioedd dyddiol	Terfyn blynyddol BA	Terfyn blynyddol WTA	Cyfanswm yr uchafswm ffioedd blynyddol
-------------------------	--------------------------	--------------------------	---------------------	----------------------	--

⁵⁸ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/51058/charging_principles.pdf

⁵⁹ Ymateb [Radio North Angus](#) i'r ymgynghoriad.

Hyd at ac yn cynnwys 2W	£30	£40	£70	£150	£200	£350
-------------------------	-----	-----	-----	------	------	------

3.84 Mae'r ffioedd hyn yn dal i gynrychioli cynnydd cyffredinol yn lefel bresennol y ffioedd ar gyfer y rheini sy'n dal trwyddedau LRSL FM ar hyn o bryd, ond gostyngiad ar gyfer deiliaid trwydded LRSL AM. Rydyn ni'n cysoni'r ffioedd am y rhesymau a nodir yn ein dogfen ymgynghori. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd ar gyfer deiliaid trwydded FM a gostyngiad bach ar gyfer deiliaid trwydded AM, rydyn ni'n credu bod hyn yn rhesymol o ystyried y bydd y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud yn dod â manteision i wasanaethau RSL ar FM.

Rydyn ni wedi penderfynu cyflwyno fersiwn diwygiedig o'n cynigion ymgynghori ar gyfer ffioedd trwyddedau RSL sy'n gweithredu hyd at ac yn cynnwys 2 wat, gan arwain at gynydd ar gyfer y dawlwytr trwydded hyn, ond nid yw cyn uchred â'r cynnig gwreiddiol.

Mewn ffyrdd eraill, byddwn yn gweithredu ein cynigion ymgynghori

- 3.85 Roedd rhanddeiliaid hefyd wedi nodi materion eraill yn hytrach na'r ffioedd ar gyfer RSLs hyd at ac yn cynnwys 2 wat. Fodd bynnag, nid ydyn ni'n credu y byddai'r safbwyntiau a gyflwynir gan ymatebwyr yn cyfiawnhau newid yn ein cynigion yn yr achosion hyn.
- 3.86 Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer trwyddedau sy'n gweithredu ar bwerau dros 2 wat. Rydyn ni'n derbyn pryderon rhanddeiliaid sy'n nodi bod y terfyn blynyddol o £1200 WTA a'r terfyn blynyddol o £2100 ar gyfer trwyddedau o'r fath yn rhy isel. Fodd bynnag, rydyn ni o'r farn y gallai cap blynyddol uwch atal rhai deiliaid trwydded posibl rhag gweithredu gwasanaeth yn y dyfodol. Er mwyn annog mwy o RSLs, a chan gofio sicrhau bod ffioedd yn parhau i fod yn gymesur ar gyfer RSLs y bwriedir eu darparu dros gyfnod hwy, rydyn ni wedi penderfynu capio ffioedd ar y lefel roeddem yn ei chynnig. Er ein bod yn ymwybodol o'r potensial damcaniaethol i ddeiliaid trwydded geisio gweithredu gwasanaeth amser llawn effeithiol drwy gael trwyddedau olynol, yn ymarferol rydyn ni'n ystyried hyn yn annhebygol a byddem yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddefnydd o'r system drwy ein proses drwyddedu.
- 3.87 Awgrymodd un ymatebydd fod y terfyn o 2 wat yn rhy isel ar gyfer senarios gweithredu yn y DU a nododd ymatebydd arall y dylai lefel pŵer "safonol" ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig sy'n gweithredu ar AM fod yn 2W EMRP. Ar sail trwyddedau RSLs yn y gorffennol, rydyn ni o'r farn bod y toriad rydyn ni wedi'i awgrymu yn briodol. Rydyn ni wedi cynyddu'r pŵer i 2W ar gyfer gwasanaethau FM gan ein bod yn defnyddio amleddau darlledu cyfyngedig sy'n fwy tebygol o ddiodef ymyriant. Fodd bynnag, nid ydyn ni'n gweld bod angen cynyddu'r gwasanaethau cyfyngedig sy'n gweithredu ar AM uwchlaw'r uchafswm presennol o 1W gan mai dim ond i FM y mae'r ddarpariaeth gyfyngedig yn berthnasol.
- 3.88 Er ein bod yn nodi pryderon rhanddeiliaid am y llawr sŵn ar gyfer darllediadau AM ac FM, nid yw mynd i'r afael â'r mater hwn o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys lefel y ffioedd ar gyfer RSLs sy'n trosglwyddo ar dros 2 wat, rydyn ni wedi penderfynu gweithredu ein cynigion ymgynghori.

4. Y camau nesaf

Byddwn nawr yn rhoi'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud ar waith

- 4.1 Ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon, byddwn yn ymgysylltu â deiliaid trwydded presennol y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â deiliaid trwydded treial darpariaeth cyfyngedig ynghylch y camau nesaf ar gyfer eu gwasanaethau.
- 4.2 Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon maes o law ynghylch ein penderfyniad i wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried gwneud gorchymyn a fyddai'n darparu eithriad ar gyfer ADSRSLs a gwasanaethau ystod byr sy'n datblygu o'r angen i ddal trwydded Deddf Darlledu.
- 4.3 Daw'r ffioedd trwydded newydd rydyn ni wedi penderfynu arnynt yn y datganiad hwn i rym pan gyhoeddir y ddogfen hon. Bydd trwyddedau a gyhoeddwn yn dilyn y cyhoeddiad hwn yn amodol ar y ffioedd newydd.
- 4.4 Bydd y ffioedd newydd yn dod i rym ar gyfer deiliaid trwydded presennol o'u dyddiad bilio blyneddol nesaf ar gyfer ffi'r drwydded. Ar gyfer trwyddedau SRSL presennol a thrwyddedau SRSL cyfnod estynedig (hynny yw, y rheini sydd â thrwyddedau a gyhoeddwyd cyn y cyhoeddiad hwn, lle mae ffioedd y drwydded wedi cael eu talu ymlaen llaw) byddai'r drefn ffioedd bresennol yn parhau i fod yn berthnasol nes y daw'r trwyddedau i ben.
- 4.5 Byddwn yn ymgynghori ar ddiweddarau rheoliadau ffioedd WTA maes o law. Mae'r newidiadau drafftio rydyn ni'n disgwyl eu gwneud i'r rheoliadau wedi'u nodi yn Atodiad 1 y ddogfen hon.

A1. Diwygiad i Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 2020

A1.1 Mae Atodlen 2 y Rheoliadau ar hyn o bryd yn datgan mai ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr ar gyfer gwasanaethau radio cyfyngedig yw:

Dosbarth y drwydded	Symiau amrywiol	Cyfnod talu rhagnodedig
Trosglwyddo Gwasanaethau Radio Cyfyngedig (Dosbarth A—Pelydru'n Rhydd)	(a) £15 y dydd am bob amledd band darlledu ton ganolig. (b) £25 y dydd lle nad yw'r erp yn fwy nag 1 Watt ar gyfer pob amledd band darlledu VHF. (c) £40 y dydd lle mae'r erp yn fwy nag 1 Watt am bob amledd band darlledu VHF.	
Trosglwyddo Gwasanaethau Radio Cyfyngedig (Dosbarth A—Cebi Pelydru)	£100	12 mis
Trosglwyddo Gwasanaethau Radio Cyfyngedig (Dosbarth C—Pelydru'n Rhydd ar Bŵer Isel lawn)	£100	12 mis

A1.2 Yn dilyn y penderfyniad a nodir yn y ddogfen hon, byddwn yn ymgynghori maes o law ar ddisodli'r darpariaethau gwasanaeth cyfyngedig hyn yn y Rheoliadau presennol gyda:

Dosbarth y drwydded	Symiau amrywiol
Gwasanaeth Cyfyngedig	(a) £40 y dydd am wasanaeth sy'n trosglwyddo hyd at ac yn cynnwys 2 Wat, hyd at derfyn uchaf blynyddol o £200 (b) £40 y dydd am wasanaeth sy'n trosglwyddo dros 2 Wat, hyd at derfyn uchaf blynyddol o £1,200

Dim ond crynodeb manwl wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Mae'r penderfyniadau rydyn ni wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.